



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mercher, 10 Chwefror 2021 am 4.00 pm

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

### Y Cyngorydd(wyr)

J P Curtice  
L R Jones  
D W W Thomas

### Y Cyngorydd(wyr)

B Hopkins  
M B Lewis

### Y Cyngorydd(wyr)

O G James  
S Pritchard

### Swyddogion

Gareth Borsden  
Alison Lane

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
Pennaeth y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a  
Chynhwysiad, Gwasanaethau Cyflawniad a  
Phartneriaeth

Helen Morgan-Rees  
Helen Osbourne

Cyfarwyddwr Addysg  
Prif Seicolegydd Addysg, Gwasanaethau Cyflawniad a  
Phartneriaeth

Amanda Taylor

Pennaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r Uned Cefnogi  
Ymddygiad, y Gwasanaethau Cyflawniad a Phartneriaeth  
Prif Gyfreithiwr

Stephanie Williams

### Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): M A Langstone a J A Raynor

---

#### 11 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

#### 12 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021 fel cofnod cywir.

#### 13 Llongyfarchiadau

Llongyfarchodd y Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor Helen Morgan-Rees ar ei phenodiad diweddar fel Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Abertawe, gan ddymuno'r gorau iddi yn ei rôl.

## 14 Problemau Lles - Plant Diamddiffyn.

Amlinellodd Helen Morgan-Rees fod sbectrwm ac ystod eang o ddysgwyr diamddiffyn yn Abertawe, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol, anabledau, iechyd a lles emosiynol, ymddygiad, ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol ac amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.

Adroddodd Alison Lane am y materion sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac iechyd a lles emosiynol, gan ganolbwyntio ar y rhain. Dywedodd fod staff wedi gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r trydydd sector. Darparwyd canllawiau, gwybodaeth a chyngor cysylltiedig sy'n briodol i oedran i rieni, gofawyr a phobl ifanc drwy fformat ysgol rithwir Abertawe.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn hyn wedi cynnwys rheoli argyfwng COVID i rieni, profedigaeth a cholled ar y cyd â gwasanaeth profedigaeth Cruise, a chyngor penodol i ddisgyblion niwroamrywiaeth.

Darparwyd sesiynau a chyfleoedd hyfforddiant arweinyddiaeth ar-lein gwell hefyd i arweinwyr a staff ysgolion. Mae ysgolion wedi cael gweminarau, hyfforddiant ar-lein, dogfennau canllaw ac wedi derbyn dolenni a mynediad at staff arbenigol canolog.

Mae disgyblion hefyd yn derbyn 'archwiliadau' rheolaidd gan staff yr ysgol, a lle bo angen, gydweithwyr ym maes lles addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae unrhyw faterion sy'n cael eu codi a'u dwyn i'r amlwg yn yr ysgol yn cael eu trosglwyddo'n gyflym i'r meysydd perthnasol a'r rhwydweithiau staff cymorth.

Mae offer arbenigol hefyd wedi'i roi i ddisgyblion, yn enwedig y rhai â materion golwg a chlyw ac maent yn cael cyfle i fanteisio ar gymorth ar-lein a defnyddio'r offer dysgu angenrheidiol sydd eu hangen arnynt.

Mae staff a gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n ganolog wedi parhau mewn dull 'busnes fel arfer' drwy gydol y pandemig, gyda'u hymgyngoriadau ac asesiadau ar-lein ac maent wedi cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb pan fo angen gwneud hynny.

Ar adegau pan fo pryderon presennol wedi'u codi neu faterion newydd wedi'u nodi a'u datblygu, gall yr ysgol ddarparu cymorth ac arweiniad i ddechrau a, lle bo angen, gall cyfeirio'r mater i arbenigwr canolog i gynorthwyo.

Sefydlwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ar ddechrau'r pandemig i geisio nodi'r plant mwyaf agored i niwed, sydd wedi galluogi rhoi pecyn cymorth wedi'i dargedu ar waith lle bo angen. Byddai gan y rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol gysylltiadau a chymorth eisoes ar waith drwy weithwyr cymdeithasol etc.

Amlinellwyd bod y sgôr CAG wreiddiol o blant a gynhaliwyd yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf bellach wedi'i diweddarau a'i diwygio gan ysgolion, gydag ehangiad

mawr yn nifer y disgyblion y gellir eu targedu bellach ar gyfer mesurau cymorth ychwanegol.

Roedd y cysylltiadau rhagorol a ddatblygwyd gyda Heddlu De Cymru mewn perthynas ag achosion o drais domestig a oedd yn ymwneud â phobl ifanc hefyd yn fanwl ac wedi'u hamlinellu.

Mae'r grŵp iechyd a lles emosiynol a seicolegol wedi datblygu'n gorff effeithiol iawn sy'n dod â'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol at ei gilydd mewn un lle.

Nodwyd bod argyfwng COVID, er ei fod yn cynnig heriau a phroblemau enfawr i staff, wedi gwella a chryfhau'r cydweithio rhwng yr adrannau ac asiantaethau partner. Croesawir hyn a gobeithir y bydd yn parhau.

Amlinellodd Amanda Taylor y byddai adeilad newydd yr UCD ym Maes Derw yn agor ar ôl hanner tymor i groesawu dysgwyr blwyddyn 11 yn ôl ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, gyda'r cyfnodau cynradd ac allweddol 3 yn dilyn yn yr wythnosau wedyn. Bydd y ddarpariaeth cyfnod allweddol 4 bresennol ym Mrondeg yn parhau yn y dyfodol i gynnal addysgu ac osgoi unrhyw amhariad posib, er y bydd pobl ifanc yn CA4 yn cael y cyfle i fynychu'r cyfleuster newydd os dymunant. Amlinellwyd y ddarpariaeth wyneb yn wyneb barhaus a ddarperir ym Mrondeg.

Er y bu rhai problemau, nododd fod presenoldeb wedi bod yn dda ar y cyfan, gyda gwersi byw yn parhau drwy gydol y cyfyngiadau symud amrywiol. Wrth gwrs, mae amgylchiadau a sefyllfaoedd teuluol wedi effeithio ar achosion unigol penodol.

Amlinellodd, oherwydd cyflyrau emosiynol ac iechyd meddwl rhai o'r bobl ifanc, fod dysgu ar-lein wedi'u cefnogi mewn gwirionedd, ond nododd y gallai dibynnu ar ddysgu ar-lein fod yn broblem wrth symud ymlaen pan gaiff dysgu wyneb yn wyneb ei ailgyflwyno.

Yn dilyn y profiadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfyngiadau symud cyntaf, nodwyd bod y sgôr CAG yr oedd y plant i gyd wedi'i derbyn i ddechrau hefyd wedi cael ei hadolygu a'i diweddarau i gefnogi eu hanghenion dysgu.

Roedd pecynnau papur hefyd wedi'u dosbarthu lle nad oedd dysgu ar-lein wedi'i wneud neu nad oedd yn bosib oherwydd amgylchiadau teuluol.

Mae pob plentyn sengl wedi cael gweithiwr allweddol ac mae cyswllt parhaus â phobl ifanc wedi'i gynnal a'i ddatblygu gyda chysylltiadau rheolaidd â'u gweithwyr allweddol, athrawon dosbarth ac athrawon pwnc ar gyfer plant hŷn, a chyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Plant ac Iechyd Meddwl yn parhau, gydag ymweliadau cartref yn cael eu cynnal os bernir bod angen. Mae gan bobl ifanc yn y sgôr CAG coch ac ambr gynllun lles wedi'i ddatblygu ar eu cyfer.

Ni chaniateir i rai pobl ifanc gael mynediad at ddyfeisiau am eu bod yn agored iawn i niwed, felly mae cymorth ac arweiniad wedi'u rhoi i rieni/ofalwyr er mwyn ceisio eu cadw'n brysur wrth ddysgu a'u cadw'n ddiogel, a lle bo angen, mae dyfeisiau wedi'u darparu i'r rhwydwaith cymorth i deuluoedd eu defnyddio.

Nododd fod tri hyrwyddwr rhwydwaith teuluoedd wedi'u sefydlu i gefnogi aelodau o'r teulu sydd â phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl ac ymddygiad heriol ac i roi cyngor a chael trafodaethau am anghenion y plant.

Dywedodd fod y pandemig, fel mewn meysydd eraill, wedi gwella'r cyswllt a'r berthynas sydd gan yr UCD â rhieni ei disgyblion mewn gwirionedd oherwydd y cyswllt a'r gefnogaeth fwy rheolaidd a roddir.

Trafododd aelodau'r pwyllgor y materion a godwyd uchod a gwnaeth y ddau sylwadau mewn perthynas â nhw, gan ofyn cyfres o gwestiynau i'r Swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Unwaith eto, canmolwyd staff yr adran addysg am y gwaith a'r ymdrechion yn ystod y pandemig, a gofynnwyd i'r neges hynny o ddiolch gael ei basio ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad a'r diweddariad.

## **15 Cynllun Gwaith 2020 - 2021.**

Nododd y Cadeirydd, oherwydd y pwysau parhaus yn yr adran, ei fod yn cynnig y dylai cyfarfod nesaf y Pwyllgor ddefnyddio'r cyfarfod hwnnw i adolygu, trafod a gwerthuso'r wybodaeth, y materion a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfodydd diwethaf, gyda'r bwriad o lunio pynciau/meysydd posib i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** y bydd agenda'r cyfarfod nesaf yn adlewyrchu'r pwyntiau a godwyd uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.55 pm

**Cadeirydd**